

## Asesiad Risg Cydraddoldeb - Ffurflen Sgrinio (A)

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw weithdrefnau, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau a chynnwys rhai newydd, wedi'u hadolygu, neu wedi eu diwygio'n sylweddol.

<b>Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir</b>	
Polisi Recriwtio a Dethol	
<b>Cyfarwyddiaeth/ Adran/Tîm</b>	
Adnoddau Dynol	
<b>Dyddiad y sgrinio:</b>	<b>Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?</b>
10 <sup>fed</sup> Mehefin 2014	<i>Cymuned, Personél</i>
<b>Nodau, amcanion a chanlyniadau</b>	
Diben y polisi yw cynghori holl weithwyr GTAGC o'r weithdrefn gywir wrth reoli gweithdrefnau recriwtio a dethol yn unol â pholisi'r Gwasanaeth.	

Mae Asesiad Risg Cydraddoldeb yn ein helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal ag atal gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'n offeryn a fydd yn eich helpu pan fyddwch yn: gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddarau polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn gweithredu fel archwiliad o'r penderfyniadau yr ydych yn eu cynnig.

Mae asesu effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rhaid i ni ystyried sut y mae'r penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchoddedig, sef; oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol.

*(Os nad ydych wedi bod ar yr hyfforddiant, neu bod dipyn o amser ers i chi gwblhau ARC, darllenwch y Canllawiau yn gyntaf).*

## Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod a nodwch os yw eich cynnig yn risg effaith **isel**, **canolig** neu **uchel**.

<b>Lefel y risg</b>	
Isel	Effaith leiaf posibl neu hynod o fach ar nodwedd warchodedig. Effaith andwyol yn annhebygol..
Canolig	<p>Mae risg fechan i ganolig yn bodoli a allai effeithio ar nodwedd warchodedig. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw effaith andwyol yn digwydd.</p> <p>Os oes rhesymau lliniarol, megis rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. oed trwydded yrru), gofynion y swydd (e.e. prawf llygaid ar gyfer recriwtiaid), neu feini prawf prosiect (e.e. gyrwyr ifanc), rhaid i'r rhain gael eu cynnwys yn yr adran berthnasol. Nodwch na ellir defnyddio cost yn unig fel rheswm lliniarol.</p>
Uchel	<p>Effaith negyddol sylweddol ar y grŵp nodwedd warchodedig i'r gymuned, staff, neu broses fusnes. Byddai'n arwain at ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth ac felly gellid rhoi'r sefydliad mewn perygl. Os nodir y lefel hon, mae'n ofynnol cwblhau Ffurflen Asesu lawn (B).</p> <p>Os yr effaith mewn gwirionedd yn hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau i'r grŵp a gaiff ei dan gynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân a anelir at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol sy'n cael ei chaniatáu gan y gyfraith.</p>
<b>Arfer Da/Ffactorau Lliniarol</b>	Os bydd y weithdrefn, prosiect, cynllun, ayb. yn darparu gwelliannau - er enghraifft, y geiriad yn dod yn fwy cynhwysol, sicrhewch bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr adran Arfer Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y trafodwyd yn y Canllawiau), gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cynnwys yma.

<b>Nodweddion Gwarchoddedig</b>	Lefel Risg uchel, canolig, isel	Esboniwch eich asesiad yn fyr	Arfer da a/neu Ffactorau lliniarol
<p><b>Oed</b> (grŵp oed ieuengach, hŷn neu benodol)</p>	<p>Isel</p>	<p>Cefnogir y polisi gan bolisi Gweithio Hyblyg y Gwasanaeth sy'n rhoi manylion am amrywiaeth eang o ddewisiadau gweithio hyblyg (gweithio yn ystod y tymor, oriau cywasgedig ayb.) er mwyn cefnogi pobl yn ystod cyfnodau penodol yn eu bywydau e.e. gyda phlant ifanc, cyfrifoldebau gofalu ayb.</p> <p>Nod y polisi yw denu rhai o bob oed a rhoi arweiniad i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin mewn modd nad yw'n gwahaniaethu.</p>	<p>Mae'r broses recriwtio/dethol yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o achosion unigol mewn perthynas â meini prawf penodol, a bydd yn cael ei monitro er mwyn sicrhau nad yw'n niweidiol i unrhyw grŵp.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cymryd camau i annog pobl o grwpiau sydd ag anghenion gwahanol neu gyda record o anfantais yn y gorffennol neu gyfranogiad isel i ymgeisio am swyddi trwy fentrau gweithredu cadarnhaol.</p>
<p><b>Anabledd</b> (corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, cudd)</p>	<p>Isel</p>	<p>Rhestrir 30 o weithwyr presennol fel rhai sydd ag anabledd.</p>	<p>Cynhelir dethol a recriwtio ar gyfer rolau Llyfr Llwyd o dan y polisi Cymru Gyfan cytunedig, gan ddefnyddio'r profion Dethol Diffoddwyr Tân Cenedlaethol (NFS). Mae'r broses Llyfr Gwyrdd yn cael ei hymgorffori o fewn y polisi er mwyn sicrhau cysondeb.</p> <p>Bydd y Gwasanaeth yn gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr anabl am swyddi i sicrhau nad ydynt dan anfantais oherwydd y broses recriwtio, e.e. efallai y bydd ymgeisydd dyslecsig angen mwy o amser.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae gan y Gwasanaeth symbol 'Tic Dwbl', mae'n</p>

			<p>aelod siartredig o Gyflogwyr Gofalgar ac mae'n annog y defnydd o 'Fynediad at Waith' ac mae'n gwneud addasiadau rhesymol lle bo modd (cymhorthion, papur lliw, offer arbenigol clyw).</p> <p>Cynigir cymorth arbenigol i bersonél trwy'r adran Iechyd Galwedigaethol ac adolygiadau rheolaidd o anghenion personél anabl. Ceir cymorth arbenigol ynghylch anabled trwy weithio'n agos gyda Swyddogion o'r Ganolfan Byd Gwaith.</p> <p>Bydd pob ymgeisydd sy'n anabl ac sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Disgrifiad Swydd yn cael cyfweiliad.</p>
<p><b>Ailbennu rhywedd</b> (rhywun sy'n trosglwyddo o un rhyw i un arall)</p>	Isel	<p>Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan y bydd dethol a recriwtio yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio profion NFS/ profion dethol e.e. profion seicometreg.</p> <p>Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth.</p>	<p>Profion NFS/profion dethol Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p>
<p><b>Priodas a phartneriaeth sifil</b> (cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)</p>	Isel	<p>Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan y bydd dethol a recriwtio yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio profion NFS.</p> <p>Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth.</p> <p>Mae'r gyfran fwyaf o weithwyr yn briod (45%).</p>	<p>Profion NFS/profion dethol Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p>
<p><b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b> (Beichiogrwydd, seibiant mamolaeth, bwydo ar y fron)</p>	Isel	<p>Bydd y Gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r gweithwyr hynny sydd ar gyfnod mamolaeth / tadolaeth / salwch tymor hir ynghylch swyddi gwag yn unol â'r</p>	<p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp</p>

		<p>broses.</p> <p>Mae'r holl bersonél yn cael cyfle i wneud cais am y swydd trwy ddsbarthu'r hysbyseb i bawb.</p> <p>Petai gweithiwr beichiog neu'r rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth / tadolaeth yn dymuno gwneud cais am swydd, ymdrinnir â hyn er mwyn sicrhau na fydd y gweithwyr yn dioddef effaith andwyol.</p> <p>Mae 3 o weithwyr yn feichiog ac ymgwymerodd 5 ag absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p>	<p>penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae polisi mamolaeth ar waith gyda manylion am ddarpariaethau mamolaeth a threfniadau bwydo ar y fron.</p>
<p><b>Hil</b> (Tarddiad ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr)</p>	Isel	<p>Dim gwahaniaethu yn y maes hwn gan y bydd dethol a recriwtio yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio profion NFS neu brofion dethol amgen.</p> <p>Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth</p> <p>Mae llai na 1% yn dod o leiafrif ethnig.</p>	<p>Profion NFS/profion dethol Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p>
<p><b>Crefydd/Cred</b> (Cristnogol, Mwslimaidd, Hindwaidd, Iddewig, Bwdhaidd)</p>	Isel	<p>Mae ychydig dros 50% o weithwyr yn Gristnogion.</p>	<p>Profion NFS/profion dethol Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p>

			<p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae darpariaethau yn eu lle drwy'r polisi Gwyliau Blynyddol sy'n nodi y gellir cymryd diwrnodau crefyddau/diwrnodau gwyl priodol i gredoau crefyddol yr unigolyn yn lle gwyliau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r calendr Cristnogol.</p>
<p><b>Rhyw</b> (Benyw, Gwryw)</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae mwy o fenywod yn ymgeisio am swyddi ar sail ran-amser / rhannu swydd, felly efallai y bydd y rolau hynny a hysbyseb ar y sail hon yn lleihau faint o ddynion sydd â diddordeb mewn swyddi o'r fath.</p>	<p>Profion NFS/profion dethol. Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cymryd camau i annog pobl o grwpiau sydd ag anghenion gwahanol neu gyda record o anfantais yn y gorffennol neu gyfranogiad isel i ymgeisio am swyddi trwy fentrau gweithredu cadarnhaol.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae opsiynau gweithio hyblyg ar gael ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu sy'n berthnasol i bob cam o fywyd y gweithiwr e.e. gofalu am blant ifanc neu am rieni oedrannus ayb.</p> <p>Caiff rolau eu hysbysebu fel 'rhannu swydd' ac amlygir trefniadau gweithio hyblyg er mwyn denu pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu, waeth beth fo'u rhyw.</p>

<p><b>Cyfeiriadedd rhywiol</b> (Hoyw, Lesbiaid, neu ddeurywiol)</p>	<p>Isel</p>	<p>1 Deurywiol 1 Hoyw 2 Lesbiad</p>	<p>Profion NFS/profion dethol. Gwerthoedd Craidd.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p> <p>Mae gan y Gwasanaeth gynllun cefnogi cydweithwyr i staff, sy'n ymgorffori rhif cyswllt LHDT sy'n cynnig cefnogaeth i staff.</p>
<p><b>laith</b> (laith Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, braille, BSL)</p>	<p>Isel</p>	<p>Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyrraedd Lefel 2 Cymraeg fel safon ofynnol. Os nad ydynt ar y lefel hon, rhoddir cymorth a graddfeydd amser addas i gyrraedd y lefel.</p> <p>Gwneir addasiadau i brosesau yn ôl y gofyn.</p>	<p>Mae hwn yn bolisi i bob contract newydd ar gyfer y Cymorth GTAGC a roddir ar bob lefel.</p> <p>Mae Hyrwyddwyr Cymraeg yn eu lle i helpu aelodau staff ddatblygu.</p> <p>Cynigir CDs sain Cymraeg gyda thrawsgrifiadau ar gyfer eu defnyddio yn y cartref.</p> <p>Mae'r swyddi yn agored i bawb sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb.</p> <p>Mae gweithwyr yn cael cynnig deunyddiau cyfweiliadau/ recriwtio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn iddynt ymgymryd â'r broses yn yr iaith o'u dewis.</p> <p>Lle canfyddir bod meini prawf neu weithdrefn ag effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar grŵp penodol, bydd angen iddynt gael eu hadolygu neu eu cyfiawnhau o fewn y trwyddedau'r gyfraith.</p>

***Os nodir risg uchel ar gyfer unrhyw nodwedd warchoddedig, bydd angen Asesiad llawn (Ffurflen B). Os yw'r risg yn ganolig ond nad oes unrhyw ffactorau lliniarol, efallai bod angen Asesiad Llawn, felly siaradwch gyda'r Swyddog Amrywiaeth.***

Sicrhewch fod y ffurflen hon yn cael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd i chi ei chwblhau (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect, ayb.) ac e-bostiwch gopi, ynghyd ag unrhyw bapurau cefnogol, i fewnflwch yr Uned Amrywiaeth. Os yn cael ei chwblhau er mwyn ei defnyddio mewn Pecyn Casgliad, bydd y Swyddog Polisi angen copi wedi ei argraffu a'i llofnodi.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ARC gael ei gyhoeddi, felly bydd hwn yn cael ei lwytho i fyny i'r adran *Asesiad Risg Cydraddoldeb a Gwblhawyd* ar y fewnrwyd, a gall hefyd fod ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch edrych ar y Canllawiau os ydych yn ansicr. Os byddwch yn dal i fod ag unrhyw gwestiynau, neu os hoffech ragor o wybodaeth, yna cysylltwch â'ch Rheolwr Amrywiaeth/Cydraddoldeb.

**Llofnod y person a wnaeth y sgrinio:**

Llofnod:

Enw: Rachel Corner Dyddiad: 10-06-14

**Llofnod y person a'i awdurdododd :**

Llofnod:

Enw: Llinos Gutierrez-Jones  
Dyddiad: 10-06-14